BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Byd Hud o Gerddoriaeth

**gan / by Branwen Gwyn**

Mae cerddoriaeth o'n cwmpas ym mhobman yn y byd,
Ry'n ni'n gallu clywed miwsig o hyd ac o hyd,
Ar y radio, y teledu, plant yn chwarae yn y stryd,
Pa fath o nodau sy'n llenwi dy fyd?

Nodau swnllyd fel awyren?
Neu rai tawel fel llygoden?
Nodau cyflym iawn fel mellten?
Neu rai araf fel malwoden?
Nodau sydd yn uchel?
Neu nodau isel, isel?
Nodau hir fel neidr a'i si?
Neu Nodau byr fel cyfarth ci?

Cura dy ddwylo, stompia dy draed,
Mae curiad yn llifo drwy dy waed.
Clicia dy fysedd, neu beth am chwibanu,
Agor dy geg yn llydan i ganu.



**Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma**
**www.booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime**

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

Noddir gan **Llywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**



Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Byd Hud o Gerddoriaeth

## Gweithgareddau

**Pwrpas:** Annog adnabod terminoleg sain a cherddoriaeth, iaith a lleferydd, rhifedd a sgiliau gwneud marciau.

**Deunyddiau fydd eu hangen:** Taflenni gweithgaredd wedi'u hargraffu, peniau neu bensiliau, offerynnau cerdd neu eitemau sy'n gwneud sŵn.

### Llythrennau Cerdd Coll

Allwch chi gwblhau enwau'r offerynnau cerdd?

t e l y n

d r w m

g i t â r

p i a n o

t r w m p e d



Rhif Elusen / Charity Number: 313343

# BookTrust Cymru

## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time

# Byd Hud o Gerddoriaeth

**Gweithgareddau**

**Cyfrwch y Symbolau Cerddoriaeth**

**Nodyn ydy hwn**



**Cleff y trebl ydy hwn**



**Cleff y bas ydy hwn**



Sawl nodyn weli di? ☐

Sawl cleff y trebl weli di? ☐

Sawl cleff y bas weli di? ☐





Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time

## Byd Hud o Gerddoriaeth
### Gweithgareddau

**Gwrthgyferbynnu Cerddorol**

Cysyllta’r geiriau croes

| | |
|---|---|
| swnllyd | byr |
| hir | isel |
| araf | tawel |
| uchel | cyflym |

**Dewch i Wneud Sŵn!**

Gwyliwch y fideo rhigwm a defnyddiwch offerynnau cerdd neu eitemau sy’n gwneud sŵn i ymuno â’r hwyl gyda cherddoriaeth.


Rhif Elusen / Charity Number: 313343